# SYSTEM GWEITHIO DIOGEL

| GWEITHGAREDD/TASG | Codi o'r gwely i gadair/o gadair i'r gwely gan ddefnyddio teclyn codi goddefol symudol (2 ofalwr) | |
|---|---|---|
| **ADRAN:** | Cymunedau | |
| **Dogfennaeth diogelwch arall mewn perthynas â'r Gweithgaredd hwn (os yw'n berthnasol):**<br>• Asesiadau Risg,<br>• Systemau Gweithio Diogel,<br>• Gweithdrefnau<br>• Canllawiau ac ati | **TEITL** | **CYFEIRNOD** |
| | Asesiad Risg Codi a Chario | |
| | System Gweithio Diogel | |
| | Fideos dull | |



## GOFYNION DIOGELWCH CYFFREDINOL



- Dylai'r holl staff sy'n rhan o'r gweithgaredd hwn fod wedi mynychu cwrs hyfforddiant sylfaenol Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch codi a chario cleientiaid, neu weld y fideo perthnasol a ddarperir fel rhan o'r Pecyn Sgiliau Hanfodol ar-lein.
- Rhaid i staff sicrhau eu bod yn gwisgo'r dillad cywir ac yn defnyddio'r cyfarpar diogelu personol sydd wedi'i ddosbarthu i gyflawni'r dasg hon.
- Sicrhewch eich bod wedi darllen a deall yr asesiad risg codi a chario ar gyfer yr unigolyn y byddwch yn ei gynorthwyo.
- Rhaid i staff gynnal 'Asesiad Risg Personol' cyn y dasg - ystyried y Dasg, yr Unigolyn, y Llwyth, yr Amgylchedd, Arall (**TILEO**);
- Sicrhewch eich bod wedi archwilio'r holl offer sydd ei angen i gyflawni'r dasg hon.
- Rhaid i staff lynu wrth '**Egwyddorion Codi a Chario Diogel**' wrth gyflawni unrhyw weithgareddau codi a chario.
- Nodwch arweinydd tîm, bydd y person hwn yn rhoi cyfarwyddiadau i sicrhau bod y dasg yn cael ei chyflawni'n ddiogel.
- Sicrhewch fod cyfathrebu da yn digwydd â phob unigolyn wrth gyflawni'r dasg.

**Rhaid i chi roi gwybod i'ch rheolwr llinell am unrhyw anawsterau neu bryderon ynghylch codi a chario.**



## CYMHWYSEDD/HYFFORDDIANT

Mae angen yr hyfforddiant isod i gyflawni'r gweithgaredd



| HYFFORDDIANT | CWRS/ARDYSTIEDIG/CYMHWYSTER/PROFIAD |
|---|---|
| Hyfforddiant cynllunio wrth gefn wedi'i deilwra - codi a chario | Tîm Gweithio Diogel |



## DEDDFWRIAETH/SAFONAU RHEOLI

Dylid cyflawni'r gweithgaredd/tasg yn unol â'r ddeddfwriaeth/safonau isod



- ✓ Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974
- ✓ Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- ✓ Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992 fel y'u diwygiwyd yn 2002

## DATGANIAD DULL (2 ofalwr)

Sut i gyflawni'r dasg a defnyddio offer gwaith perthnasol yn ddiogel

Ar ôl ffitio'r sling, sicrhewch fod brêcs y gwely ymlaen a gostyngwch y gwely gan sicrhau bod lle o dan y gwely ar gyfer y teclyn codi a'i fod yn glir o geblau.

Rhaid i'r gofalwr arweiniol gynnal gwiriad o'r defnyddiwr cyn defnyddio'r teclyn codi.



Dewch â'r teclyn codi o'r ochr y byddwch yn trosglwyddo'r unigolyn.

Dewch â'r bar lledaenu i mewn dros draed yr unigolyn. Dylai'r ail ofalwr ddal y bar lledaenu. Gyda'ch gilydd, gwthiwch y teclyn codi a'r bar lledaenu i fyny i ganol yr unigolyn.
Dylai'r gofalwr arweiniol agor coesau'r teclyn codi.

Atodwch y sling i'r bar lledaenu **FEL Y NODIR YN YR ASESIAD RISG CODI A CHARIO**
Atodwch y strapiau coes yn gyntaf ac wedyn y dolenni ysgwydd.
Sicrhewch fod y bar lledaenu'n cael ei ddal wrth wneud hyn i'w atal rhag siglo

Rhaid i'r ddau ofalwr wneud y canlynol;
Archwiliwch eich atodiadau dolenni eich hunain a sicrhewch eu bod wedi'u cysylltu'n gywir â'r bar lledaenu.
Sicrhewch fod y sling wedi'i ffitio'n iawn, mae angen i ben y sling fod wrth yr ysgwyddau, a gwaelod y sling bod wrth fôn asgwrn y cefn.



**PEIDIWCH Â DEFNYDDIO'R BRÊCS AR Y TECLYN CODI WRTH GODI NEU OSTWNG I GANIATÁU I'R TECLYN CODI DDOD O HYD I'W GRAIDD DISGYRCHIANT A SYMUD.**

Dylai'r gofalwr arweiniol weithredu'r teclyn codi gan sefyll rhwng gwaelod y gwely a'r teclyn codi. Wrth godi'r unigolyn, rhaid i'r gofalwr arweiniol wylio nad yw'r strapiau coes yn codi ac yn troi.

Rhaid i'r gofalwr arall fod ar ochr arall y gwely wrth ysgwyddau'r unigolyn, i gefnogi pen yr unigolyn a sicrhau bod y sling wedi'i leoli'n gywir o amgylch yr ysgwyddau a bôn asgwrn y cefn.



**MAE ANGEN I OFALWR GEFNOGI'R UNIGOLYN BOB AMSER, PEIDIWCH Â GADAEL YR UNIGOLYN I SIGLO.**

Codwch yr unigolyn i fod uwchben y gwely ar uchder sedd y gadair.

Rhaid i un gofalwr gefnogi traed yr unigolyn wrth ei symud oddi ar y gwely, tra bod y gofalwr arall yn symud y teclyn codi.

**SYSTEM GWEITHIO DIOGEL**



Rhaid i'r ddau ofalwr weithio gyda'i gilydd. Dylai un gofalwr symud y teclyn codi tuag at y gadair wrth i'r gofalwr arall gefnogi'r unigolyn yn y sling.



**Os ydych yn symud yr unigolyn i gadair olwyn neu unrhyw gyfarpar ag olwynion, sicrhewch fod y brêcs YMLAEN ar y cyfarpar hynny**

Ewch at y gadair o'i blaen gyda thraed y teclyn codi y naill ochr a'r llall i'r gadair.
**Cofiwch sicrhau NAD yw'r brêcs ymlaen ar y teclyn codi**

Rhaid i'r ddau ofalwr ddal y sling wrth y cluniau â'r llaw sydd agosaf at yr unigolyn, a gwthio pen ôl yr unigolyn ychydig yn ôl i waelod y gadair wrth ostwng y teclyn codi.



Gall y gadair godi ond bydd yn gostwng wrth i'r unigolyn gael ei ostwng arni



Cyn gynted y bydd yr unigolyn yn y gadair, rhaid i un gofalwr ddal y bar lledaenu a chadw llygad ar y teclyn codi wrth i'r gofalwr arall sicrhau bod yr unigolyn yn gyfforddus ac yn eistedd yn iawn. (os nad yw'n eistedd yn iawn dylech godi'r unigolyn a symud y gadair)

Sicrhewch eich bod yn dod â'r bar lledaenu i lawr rhwng brest a chanol yr unigolyn cyn datgysylltu'r dolenni a thynnu'r teclyn codi a'r sling.

Glanhewch y teclyn codi a'i ddychwelyd i'w wefru.
Archwiliwch y sling a naill ai ei ddychwelyd i'r storfa neu ei olchi.

**Cynorthwyo'r unigolyn i ddychwelyd i'r gwely gan ddefnyddio teclyn codi goddefol symudol**



Rhaid i'r gofalwr arweiniol gynnal gwiriad o'r defnyddiwr cyn defnyddio'r teclyn codi.
Sicrhewch fod brêcs y gwely ymlaen a gostyngwch y gwely gan sicrhau bod lle o dan y gwely ar gyfer y teclyn codi a'i fod yn glir o geblau.

Dewch â'r teclyn codi i mewn o flaen y gadair tuag at yr unigolyn. Dylai'r bar lledaenu fod rhwng brest a chanol yr unigolyn.

Atodwch y dolenni coes ac wedyn y dolenni ysgwydd **fel y nodir yn yr asesiad risg codi a chario.** Sicrhewch fod gofalwr yn cefnogi'r bar lledaenu i'w atal rhag siglo.



Wrth i'r unigolyn gael ei godi, mae'n rhaid i'r ddau ofalwr gefnogi sling yr unigolyn ar y naill ochr a'r llall i'w atal rhag siglo.

Codwch yr unigolyn fel bod ei ben ôl yn uwch na'r gadair cyn ei symud.



Rhaid i un gofalwr symud y teclyn codi wrth i'r gofalwr arall gefnogi'r unigolyn.



Mae angen i'r teclyn codi fod yn wynebu'r gwely. Sicrhewch fod uchder y gwely'n iawn a bod coesau'r teclyn codi'n glir o unrhyw geblau.

Rhaid i un gofalwr gynorthwyo i symud traed yr unigolyn i'r gwely, wrth i'r gofalwr arall wthio'r teclyn codi i roi'r unigolyn yn y lleoliad iawn dros y gwely.



Dylai'r gofalwr arweiniol weithredu'r teclyn codi gan sefyll rhwng gwaelod y gwely a'r teclyn codi. Wrth ostwng yr unigolyn mae'n rhaid sicrhau nad yw'r strapiau coes yn codi nac yn troi.

Rhaid i'r gofalwr arall fod ar ochr arall y gwely wrth ysgwyddau'r unigolyn er mwyn cefnogi pen yr unigolyn.

**PEIDIWCH Â DEFNYDDIO'R BRÊCS AR Y TECLYN CODI WRTH GODI NEU OSTWNG I GANIATÁU I'R TECLYN CODI DDOD O HYD I'W GRAIDD DISGYRCHIANT A SYMUD.**



Gostyngwch yr unigolyn i lawr i'r gwely i'r safle angenrheidiol.

Dewch â'r bar lledaenu i lawr wrth stumog yr unigolyn. Rhaid i ofalwr gefnogi'r bar lledaenu i'w atal rhag siglo.

Gofynnwch a yw'r unigolyn yn gyfforddus cyn datgysylltu'r dolenni a thynnu'r teclyn codi a'r sling.

Glanhewch y teclyn codi a'i ddychwelyd i'w wefru.
Archwiliwch y sling a naill ai ei ddychwelyd i'r storfa neu ei olchi.